Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

01/09/23

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Gobeithio eich bod wedi cael cyfle i ymlacio a mwynhau fel teulu dros y gwyliau?

Gwych yw gallu llongyfarch disgyblion Bl.10-13 ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU a Safon Uwch eleni. Mae'r disgyblion wedi perfformio'n dda iawn unwaith eto eleni - diolch i bob un ohonynt am eu hymdrechion clodwiw, i'r staff am eu holl arweiniad ac i chi fel rhieni/gwarcheidwaid am roi'r gefnogaeth iddynt i lwyddo.

Gaf i eich atgoffa am y trefniadau ail ddechrau o wythnos nesaf ymlaen:

| DECHRAU TYMOR YR HYDREF 2023 | |
|---|---|
| Gwener 01.09.23 a Llun 04.09.23 | HMS – dim ysgol i ddisgyblion |
| Mawrth 05.09.23 | Blwyddyn 7, 12 a 13eg yn unig i fynychu'r ysgol |
| Mercher 06.09.23 | Pob disgybl yn dychwelyd Bl. 7-13eg |

Rydym yn ymwybodol iawn am wasgedd costau byw cynyddol ac yn awyddus i gefnogi unrhyw deuluoedd yn sgìl hyn. Hoffwn dynnu eich sylw at y cyfleoedd isod ar gyfer cynnig cefnogaeth i rieni yn ystod y cyfnod heriol tu hwnt yma - cliciwch ar y ddolen yma:
Cymorth ariannol ar gael i ddysgwyr a'u teuluoedd | LLYW.CYMRU am fanylion o gynlluniau ar wefan Llywodraeth Cymru i gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd. Os gallwn ni gefnogi ymhellach fel ysgol, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â Rheolwraig Busnes yr ysgol, Mrs Eirian Leonard ar y rhif isod neu drwy'r e-bost yma: LeonardE18@hwbcymru.net. Yn ogystal, rydym yn rhedeg 'Siop Gyfnewid' gwisg ysgol o'r ysgol yn ddyddiol ac yn ystod pob noson rieni. Os ydych am fanteisio ar brynu gwisg ail law o ansawdd da am brisiau isel, plîs cysylltwch gyda Mrs Eirian Leonard (e-bost uchod) unwaith eto i drefnu casglu gwisg.

Rydym o hyd yn edrych i gynyddu'r stoc o ddillad ail sydd gennym i'w ddosbarthu. Felly, os oes gwisg ysgol gennych allai gael ei ail-ddefnyddio o ran ei ansawdd ac na fyddwch yn gweld unrhyw werth arall iddi, gofynnwn i chi ystyried ei rhoi i'r ysgol. Fe allwn ni ei hail-ddosbarthu i gefnogi dysgwyr a rhieni gyda'r costau sydd yn dod gyda gwisg newydd. Fe all y dillad yma gael eu defnyddio fel ail set o wisg ysgol, sydd o hyd yn ddefnyddiol i ddisgyblion a'u teuluoedd.

Os yw'n bosib, a fyddech yn gallu gollwng y dillad yn swyddfa'r ysgol rhwng dydd Llun y 4ydd hyd at ddydd Gwener yr 8fed o Fedi? Diolch o flaen llaw am eich cydweithrediad ar y fenter yma, un ble y gallwn barhau i gefnogi disgyblion a rhieni i'r dyfodol.

Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu eich plentyn yn ôl i'r ysgol yr wythnos hon nesaf a thrwy gydweithio agos rhwng yr ysgol a'r cartref, gallwn gefnogi pob disgybl i lwyddo i'r dyfodol.
Yn ddiffuant,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru / Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery / Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru / Arts Council of Wales